

Llythyr gan y Prif Weithredwr, Arweinydd ac Aelod Arweiniol

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb yn y swydd Prif Swyddog Addysg ag Ymyrraeth Cynnar. Bydd y swydd hon yn dod yn wag ym mis Awst 2020 oherwydd ymddeoliad deiliad y swydd bresennol.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno a'm Uwch Dîm Arweinyddiaeth sydd yn cynnwys 7 Prif Swyddog ac sydd wedi bodoli ers Ebrill 2019 a bydd y swydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr.

Mae'r Arweinydd, Deilydd Portffolio a'r Prif Weithredwr yn gweld hwn fel swydd allweddol ac yn hanfodol ar gyfer adeiladu ar lwyddiant ac ehangu a chryfhau ein gwasanaethau er budd plant a phobl ifanc Wrecsam.

Byddwch yn arwain ar bortffolio Addysg ac Ymyrryd Cynnar yn ogystal â chyfrannu'n weithredol i'n nodau arweinyddiaeth gasgliadol er mwyn darparu gwelliannau hirdymor a gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae eich portffolio yn cynnwys rhai o'n gwasanaethau rheng flaen fwyaf gweledol a phwysig. Mae'r rhain yn cynnwys gwella ysgolion, anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant, mynediad a lleoedd ysgol, gwasanaethau ieuencid a gwasanaethau lles. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 68 o ysgolion gan gynnwys 1 ysgol feithrin, 57 o ysgolion cynradd a 9 ysgol uwchradd. Yn ogystal mae un ysgol arbennig ac Uned Cyfeirio Disgyblion

Archwiliwyd Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol yn Wrecsam ym mis Hydref 2019. Gellir gweld yr adroddiad ar wefan Estyn yn www.estyn.llyw.cymru.

Byddwch yn cyngori ein Prif Weithredwr, a'n Haelodau Etholedig ar faterion addysgiadol allweddol yn ogystal ag arwain ar rai o'n gwaith newid pwysicaf, a phrosiectau partneriaeth eraill. Bydd disgwyliadau'n uchel o fewn a thu allan i'r Cyngor ond bydd atebolrwydd a chefnogaeth gref yn cael ei ddarparu'n gyfunol.

Byddwch yn gallu dangos sgiliau arweinyddiaeth ardderchog a gweladwy, yn gyfathrebwr medrus gyda llwyddiant blaenorol o ddylunio a darparu gwasanaethau i gwsmeriaid a rhaglenni newid arloesol a gwell. Rydym yn chwilio am rywun gyda gwybodaeth a sgiliau ardderchog yn y maes, neu sgiliau mewn sefydliad cwsmer cymhleth a thebyg y gellir eu trosglwyddo. Os ydych yn llwyddiannus byddwch yn rhan o dîm o weision sifil ymrwymedig sy'n gweithio ar ran Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'i phreswylwyr.

Credwn fod Wrecsam fel lleoliad, a'r Cyngor fel sefydliad, yn lle gwych i fod, ac yn gyfle i chi ddatblygu eich sgiliau a bod yn rhan o'n dull Un Cyngor o adeiladu ar lwyddiant sefydliad deinamig sy'n datblygu.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Yn ddiffuant

Cyng. Mark Pritchard



Arweinydd

Ian Bancroft



Prif Weithredwr

Cyng. Phil Wynn



Aelod Arweiniol Portffolio